

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer**13/11/23**

Presennol: D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans

Lis Puw (Clerc)

1. **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd, gan estyn croeso cynnes iawn yn ôl i Tyly Roberts yn dilyn ei damwain. Diolchodd Tyly Roberts am y negeseuon a'r blodau – i gyd yn gysur ac yn gymorth iddi yn ei chyfnod hir o wella.

Nid oedd ymddiheuriadau.

2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 11/9/23, gan nodi mai "Mawrth 2024" oedd y dyddiad cau ar gyfer gorffen llwybr y fynwent.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a soniodd fod y safle ail-gylchu yn symud yn fuan i safle Cwm y Glyn, gyda llythyr i bawb sy'n ei ddefnyddio yn cynnwys Stryd y Person. Y bwriad yn y pen draw fydd gwasanaeth fan gul i Stryd y Person, ond gall hyn gymryd peth amser i'w drefnu. Clirffordd: mae oedi yn y gwrandawliadau apêl ond disgwylir gwrandawliad cyn Chwefror fel ei bod yn bosib gwneud y gwaith cyn y Pasg.
6. **Materion lleol** y Cynghorwyr: Mae'r afon yn gallu cuddio ochr y ffordd rhwng y Capel a'r grid gwartheg yng Nghwm y Glyn ac mae angen pyst i farcio terfyn y ffordd yn y fan hon. Bydd y Cynghorydd yn cyflwyno'r broblem i swyddogion Cyngor Gwynedd.

Mae angen *crash barrier* ar y gornel wrth adeiladau fferm Pant yr Onnen gan fod cymaint o ddibyn yn y fan hon. Bydd y Cynghorydd yn holi'r Adran Priffyrdd.

7. Materion Ariannol:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol presennol.
 - ii. Anfonebau: Cymeradwywyd talu am dorri gwair y fynwent; mae taliad £40 ico yn cael ei wneud trwy Debyd Uniongyrchol.
 - iii. SLCC – cytunwyd i gyfrannu £40 i Gyngor Cymuned Llanuwchllyn fel rhan o dal aelodaeth y gymdeithas glercod.
8. **Llwybr y fynwent:** Ceisiwyd cael pris gan 4 contractwr a chafwyd ymateb gan un i'r rhaglen waith gyntaf, a gan un i'r rhaglen waith diwygiedig. Agorwyd y cais a ddaeth i law a chytunwyd

i'w dderbyn. Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod a disgwylir i'r gwaith gael ei orffen erbyn Mawrth 2024.

9. **Cynllunio:** Cadarnhawyd cymeradwyo cais NP5/70/LB9R Caniatâd Adeilad Rhestredig i dynnu'r ports presennol, adeiladu estyniad a newidiadau cysylltiedig, Plas Gywair.

10. **Gohebiaeth:** Ystyriwyd

- i. Cyngor Gwynedd: Cau ffordd wrth Werddon Fach am ddim mwy na 5 diwrnod 15/11/23 er mwyn gwaith Dwr Cymru.
- ii. Llywodraeth Cymru: Adolygiad o iechyd democrataidd yn y sector Cyngorau Cymuned a thref - erbyn 27/11/23. Nodwyd derbyn hwn.
- iii. Llywodraeth Cymru: derbyniwyd gwybodaeth am lwfansau Cyngorwyr a threfniadau gweithio o gartref.
- iv. Cyngor Gwynedd: derbyniwyd gwybodaeth am ail-wynebu'r ffordd mewn 5 lleoliad
- v. Gwersyllfa Pant yr Onnen: derbyniwyd gwybodaeth am drosglwyddo cyfraniad o £200 i ofal Neuadd Llangywer ar gyfer cyflenwi anghenion y ddau di-ffib pan fo angen. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r perchnogion am hyn.
- vi. Swyddog Cefnogi Cymunedau: derbyniwyd llythyr o gyflwyniad gan Huw Antur a gwybodaeth am grantiau bwyd a natur.

11. Gwnaethpwyd arolwg o dai yn y gymuned.

12. **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** Nos Lun, 15/1/24. Bydd yn cynnwys Is-bwyllgor Cyllid (caeedig).